
2



# Sut ydw i'n gweddu i’m hamgylchedd?

Addasiad

## Bwriad Dysgu

Annog disgyblion i nodi ffyrdd y mae creaduriaid glan môr yn gweddu i’w hamgylchedd.

## Sgiliau'r Cwricwlwm Cenedlaethol

| | |
|---|---|
| **Gwyddoniaeth -** | Cyfathrebu'n glir drwy ddefnyddio'r eirfa wyddonol berthnasol. |
| | Drwy waith maes, dylent gael y cyfle i astudio'r planhigion a'r anifeiliaid mewn dau amgylchedd lleol cyferbyniol. |
| **TGCh -** | Defnyddio TGCh i hyrwyddo'u dealltwriaeth o wybodaeth y maent wedi'i hadalw a'i chasglu. |
| **ADCDF -** | Yr amgylchedd naturiol. |

## Amlinelliad o'r Gweithgaredd

- Byddwch yn annog y plant i drafod addasiadau rhywogaethau gwahanol.
- Bydd plant yn darganfod sut mae'r addasiadau hyn yn eu hamddiffyn rhag grymoedd natur ac, ymosodiadau gan ysglyfaethwyr, ac yn eu helpu i ddod o hyd i fwyd.

## Adnoddau

Taflenni creaduriaid

Nodiadau Post-it


Llyfrau cyfeirio/y rhyngrwyd

Nodiadau athrawon

# Sut mae creaduriaid yn addasu i weddu i’w hamgylchedd?

**Amlinelliad o'r Wers**

- Adolygu’r creaduriaid gwahanol y deuir o hyd iddynt ar lan y môr.
- Rhoi’r rhain mewn grwpiau gyda'r penawdau ‘Mamaliaid’, ‘Echinodermau’, ‘Molysgiaid’, ‘Cramenogion’, ‘Pysgod’ ac ‘Adar’.




- Canolbwyntio ar un creadur ac esbonio bod gan bob un nodweddion sy'n hanfodol iddo allu goroesi.
- Rhannu’r plant yn grwpiau bach a rhoi taflen creadur i bob grŵp.
- Dylai'r plant ddarllen trwy'r cwestiynau a nodi eu syniadau eu hunain ar nodyn Post-it.
- Yna, defnyddio llyfrau cyfeirio/y rhyngrwyd i gael mwy o wybodaeth am yr addasiadau hyn.
- Rhoi adborth i'r dosbarth a thrafod yr hyn sy'n wahanol a'r hyn sy'n debyg.
- Dylech annog y plant i ofyn ac ysgrifennu cwestiynau tebyg am greadur gwahanol, sy'n ymwneud â’r hyn maent wedi'i ddysgu.

**Taflen Creadur**

Pam, yn eich tyb chi, y mae angen pigau ar fy nghorff?

Mae blaenau fy mreichiau'n sensitif i olau. Sut mae hyn yn fy helpu?




Ar gyfer beth y mae'r cannoedd o draed bach tiwbaidd o dan fy mreichiau?

Sut rwy'n gweddu i'm hamgylchedd?

# Taflen Creadur

Pam bod angen cragen galed i orchuddio fy nghorff?

Ar gyfer beth rwy'n defnyddio fy mhinsiyrnau?



Sut mae teimlyddion hir yn fy helpu?

Sut rwy'n gweddu i'm hamgylchedd?

**Taflen Creadur**

Pam fod angen ffwr trwchus a braster arna i ?

Ar gyfer beth rwy'n defnyddio fy esgyll?



Sut mae locsys hir yn fy helpu?

Sut rwy'n gweddu i'm hamgylchedd?

# Taflen Creadur

Ar gyfer beth mae fy nhroed mawr?

Pam fod colfach gan fy nghragen?



Pam fod cragen galed gen i?

Sut rwy'n gweddu i'm hamgylchedd?

# Taflen Creadur

Pam fod esgyll gen i?  Sut mae hynny'n fy helpu i?

Sut rwy'n dal bwyd?



Ar gyfer beth mae fy esgyll?

Sut rwy'n gweddu i'm hamgylchedd?

## Taflen Creadur

Pam fy mod yn byw mewn cytref fawr?

Pam fod plu golau gen i?



Ar gyfer beth rwy'n defnyddio fy nhraed gweog? Sut mae hynny'n fy helpu i?

Sut rwy'n gweddu i'm hamgylchedd?